Archwilio Cymru
Audit Wales

# Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd

Cyngor Sir Ddinbych

Medi 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn o dan adran 17 (2)(d) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 er mwyn helpu i alluogi'r Archwilydd Cyffredinol i fod yn fodlon (neu beidio) bod y Cyngor wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio ei adnoddau.


### © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i chi ei ailddefnyddio’n gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle rydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes angen unrhyw help arnoch gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni yn post@archwilio.cymru

Gallwch gysylltu â ni yn Gymraeg neu yn Saesneg – byddwn yn ymateb gan ddefnyddio’r un iaith â chi.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Prif Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cipolwg ar yr archwiliad | 4 |
| Ffeithiau a ffigyrau allweddol | 6 |
| Ein canfyddiadau | 9 |
| Argymhellion | 11 |
| 1 Ynglŷn â'n gwaith | 13 |
| 2 Amdanom ni | 14 |

# Cipolwg ar yr archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Gwnaethom fwrw golwg ar Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd y Cyngor i ddeall sut mae'n cael ei datblygu a'i chyflwyno, a sut y gall y Cyngor asesu a yw'n darparu gwerth am arian i drigolion.

2 Fel rhan o'r gwaith hwn, gwnaethom fwrw golwg ar ddealltwriaeth y Cyngor o dueddiadau cyfredol a rhai'r dyfodol a fydd yn effeithio ar ei ffyrdd, sut mae'n rheoli perfformiad a risg, a sut mae'n cynllunio ac yn rheoli ei adnoddau ar gyfer cynnal a chadw ffyrdd.

3 Gwnaethom hyn drwy gyfuniad o adolygiadau dogfennau a chyfweliadau â swyddogion ac Aelodau.

## Pam mae hyn yn bwysig

4 Mae ffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda yn hanfodol i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gan eu bod yn cefnogi'r ddarpariaeth o lawer o wasanaethau hanfodol ac yn galluogi pobl i deithio'n ddiogel ac yn effeithlon. Mae seilwaith ffyrdd da yn helpu i gadw cymunedau wedi'u cysylltu, yn sicrhau y gall gwasanaethau brys a chyhoeddus gyrraedd y rhai sydd eu hangen, ac yn cefnogi busnesau lleol a'r economi ehangach. Mae ffyrdd dibynadwy hefyd yn cyfrannu at ansawdd bywyd trigolion drwy wneud teithiau dyddiol yn haws ac yn fwy diogel i bawb.

## Yr hyn a ganfuom

5 Mae'r Cyngor yn deall cyflwr ei rwydwaith ffyrdd ac yn blaenoriaethu ei raglen flynyddol yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae mesurau perfformiad gwasanaeth yn canolbwyntio ar allbynnau sy'n cyfyngu ar ei allu i fesur ei lwyddiant. Mae'r Cyngor yn canolbwyntio ei gynllunio ar y tymor byr ond nid oes ganddo strategaeth tymor canolig glir ar gyfer y gwasanaeth.

## Yr hyn rydym yn ei argymell

6 Rydym yn gwneud dau argymhelliad sy'n edrych ar drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor a'i allu i asesu a yw'n cyflawni gwerth am arian, a chynllunio adnoddau dros y tymor hir.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol


Hyd ffyrdd yn Sir Ddinbych:[1]

- Pob ffordd 'A' – 207 km
- Pob ffordd 'B' – 141 km
- Pob ffordd 'C ac U' – 1,095 kms
- Cyfanswm hyd – 1,443 km

Gwariant refeniw net ar briffyrdd a ffyrdd fesul trigolyn:[2]

- yn 2023-24, gwariodd Sir Ddinbych £74.54 fesul trigolyn ar briffyrdd a ffyrdd, yn uwch na chyfartaledd Cymru o £61.34 fesul trigolyn;
- mae gwariant yn Sir Ddinbych fesul trigolyn wedi bod yn uwch na chyfartaledd Cymru ers 2009-10 ac mae wedi cynyddu mewn chwech o'r naw mlynedd diwethaf a nodwyd.

### Arddangosyn 2: gwariant refeniw net ar briffyrdd a ffyrdd fesul trigolyn yn Sir Ddinbych a Chymru





[1] gov.uk,RDL0202: Hyd ffyrdd (cilometrau) yn ôl math o ffordd ac awdurdod lleol ym Mhrydain Fawr 2024
[2] Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata gwariant refeniw net

Cyfran o gyfanswm gwariant gwasanaeth a werir ar briffyrdd a ffyrdd:[3]

- yn 2023-24, gwariodd Sir Ddinbych 2.6% o gyfanswm ei gwariant gwasanaeth ar briffyrdd a ffyrdd, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 2.2%;
- mae Sir Ddinbych wedi gwario cyfran uwch o'i chyfanswm gwariant gwasanaeth ar briffyrdd a ffyrdd na chyfartaledd Cymru ym mhob blwyddyn yn 2014-15;
- mae cyfran y cyfanswm gwariant gwasanaeth a werir ar briffyrdd a ffyrdd yn Sir Ddinbych wedi gostwng mewn tair o'r pum mlynedd diwethaf a nodwyd.

**Arddangosyn 3: cyfran o gyfanswm gwariant gwasanaethau a wariwyd ar briffyrdd a ffyrdd yn Sir Ddinbych a Chymru**





Gwariant refeniw net, gwirioneddol ac mewn termau real[4]:

- Yn 2008-09, gwariodd Sir Ddinbych £6.334 miliwn ar ei phriffyrdd a'i wasanaeth ffyrdd.
- Roedd y ffigur arian parod hwn wedi codi i £7.242 miliwn yn 2023-24.
- Mewn termau real, wedi'i addasu ar gyfer chwyddiant o'i gymharu â 2008-09, roedd gwariant yn 2023-24 yn £5.036 miliwn. Mae hwn yn ostyngiad o £1.298 miliwn ers 2008-09.

[3] Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata gwariant refeniw net
[4] Dadansoddiad Archwilio Cymru o ddata gwariant refeniw net

**Arddangosyn 4: gwariant refeniw net, mewn termau gwirioneddol a real, yn Sir Ddinbych**



# Ein canfyddiadau

## Mae'r Cyngor yn adeiladu ar ei sylfaen dystiolaeth i gefnogi cynllunio cynnal a chadw ffyrdd strategol

7 Cefnogir Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd y Cyngor gan sylfaen dystiolaeth eang sy'n gwella. Mae'n manteisio ar ddata mewnol ac allanol, ac mae disgwyl iddo elwa ymhellach wrth i arolygon a chyfundrefnau arolygu gael eu hailgyflwyno. Mae'r Cyngor hefyd yn gweithio mewn cydweithrediad â phartneriaid fel Network Rail a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynlluniau cynnal a chadw cydlynol. Mae'r ehangder hwn o dystiolaeth yn caniatáu i'r Cyngor nodi meysydd blaenoriaeth ar gyfer cynnal a chadw ar draws ei rwydwaith.

8 Mae gan y Cyngor brosesau clir i nodi a blaenoriaethu risgiau o fewn ei Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd. Mae tystiolaeth yn dangos bod swyddogion yn asesu risgiau gan ddefnyddio nifer o ffynonellau data a mewnbwn peirianwyr, gan arwain at gynllun gwaith wedi'i flaenoriaethu. Mae hyn yn sicrhau yr ymdrinnir ag anghenion rhwydwaith brys yn gyntaf, yn enwedig y rhai ar lwybrau allweddol a ffyrdd dosbarth A a B.[5]

9 Mae'r Cyngor yn dangos dealltwriaeth dda o ffactorau hirdymor sy'n effeithio ar y rhwydwaith, gan gynnwys effaith gynyddol newid hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, a chyflwr cyffredinol y rhwydwaith ffyrdd.

10 Mae gan y Cyngor syniadau i wella effeithiolrwydd. Er enghraifft, defnyddio deunydd y gellir ei ailgylchu mewn atgyweiriadau arwyneb a defnyddio technoleg deallusrwydd artiffisial yng ngherbydau'r Cyngor i ehangu galluoedd ei arolygon cyflwr ffyrdd. Gallai gwerthuso ac adolygu technegau arloesi helpu i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac effeithiol.

11 Yn strategol, mae Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd y Cyngor yn cael ei harwain gan y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd (HAMP). Mae cynllun blynyddol y maes gwasanaeth yn diffinio'r cyfeiriad ac yn integreiddio â strategaethau mewnol ac allanol allweddol eraill. Serch hynny, mae diffyg mesurau canlyniad ansoddol yn y HAMP, sy'n cyfyngu ar yr asesiad o effaith ehangach ar wasanaethau.

## Mae angen cryfhau trefniadau rheoli perfformiad

[5] Llywodraeth Cymru, Hyd a chyflwr ffyrdd, Awst 2024

12 Mae trefniadau rheoli perfformiad yn seiliedig ar allbwn i raddau helaeth gydag adroddiadau cyfyngedig sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau. Mae'r wybodaeth a ddarperir drwy adroddiadau yn dangos a yw gwaith a gynlluniwyd wedi'i gwblhau, heb fawr o ddadansoddiad ansoddol na gwerth am arian. Mae hyn yn cyfyngu ar ddealltwriaeth ynghylch a yw canlyniadau gwasanaeth diffiniedig yn cael eu cyflawni.

13 Mae trefniadau monitro a chraffu ar gyfer y Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd yn dameidiog. Rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf i Grwpiau Ardal Aelodau, sy'n rhoi cyfle i Aelodau gyfrannu at ddylunio a monitro'r gwasanaeth. Mae'r Grŵp Craffu Cyfalaf yn cael cynigion am gyllid gan wasanaethau, yn gwneud penderfyniadau ynghylch pa brosiectau i'w hariannu, ac yn monitro cynnydd y prosiectau hyn. Fodd bynnag, mae'r ddau grŵp y tu allan i broses graffu ffurfiol y Cyngor. Mae hyn yn cyfyngu ar atebolrwydd, ac yn lleihau cyfleoedd i ddysgu a gwella'n barhaus ar gyfer y Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd.

14 Yn ogystal, ystyrir gwybodaeth am berfformiad a data ariannol ar gyfer y Rhaglen Cynnal a Chadw Ffyrdd ar wahân ac nid ydynt wedi'u cysylltu. Mae hyn yn cyfyngu ar allu'r Cyngor i ddeall a yw'r gwasanaeth yn cyflawni gwerth am arian.

## Nid yw'r Cyngor yn cymryd golwg tymor hwy ar gynllunio adnoddau

15 Mae dull y Cyngor o ddarparu adnoddau ar gyfer ei Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd yn un tymor byr. Mae'r rhaglen yn cael cyllid o nifer o ffynonellau mewnol ac allanol, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn ddyraniadau un flwyddyn.

16 Mae gan y Cyngor gyfrifoldeb statudol i gynnal ei rwydwaith ffyrdd, sy'n cynnwys ymateb i stormydd gaeaf a digwyddiadau tywydd eithafol. Mae cyllid ar gyfer ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd eithafol a stormydd gaeaf yn effeithio ar gyllideb y gwasanaeth. Rhestrwyd cynnal a chadw yn y gaeaf fel rheswm dros y gorwariant ar y gwasanaeth yn yr adroddiad alldro ar gyfer 2024-25. Gyda digwyddiadau o'r fath yn cynyddu o ran amlder ac effaith, mae'n debygol y bydd y bwlch ariannu hwn yn tyfu yn y tymor canolig.

17 Mae rhywfaint o waith cynnal a chadw arferol yn cael ei ariannu drwy fenthyciadau gan y Cyngor. Dros amser, gallai'r ad-daliadau llog effeithio ar sefyllfa ariannol y gwasanaeth a chynyddu'r risg na fydd cynllunio adnoddau tymor byr yn helpu'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian dros y tymor hwy.

18 Mae ansicrwydd cyllid yn ei gwneud hi'n anodd cynllunio ei hadnoddau dros y tymor canolig i'r tymor hir, a'u halinio ag amcanion strategol corfforaethol. Fodd bynnag, gall cynllunio adnoddau dros gyfnod hirach helpu'r Cyngor i ddeall yn well yr heriau y mae'n eu hwynebu, yn ogystal â chefnogi atebion tymor hwy na ellir eu gweithredu mewn cylch blynyddol.

# Argymhellion

**A1 Rheoli perfformiad**

Er mwyn helpu'r Cyngor i werthuso a yw'n cyflawni gwerth am arian a chanlyniadau bwriadedig ei raglen cynnal a chadw ffyrdd, dylai gryfhau'r wybodaeth perfformiad a ddarperir gan wneud y canlynol:

1.1 datblygu mesurau canlyniad a nodi sut y bydd yn mesur cynnydd yn eu herbyn; a

1.2 nodi sut y bydd yn monitro ac yn gwerthuso gwerth am arian ei raglen cynnal a chadw ffyrdd.

**A2 Cryfhau cynllunio adnoddau tymor canolig i hirdymor**

Er mwyn cefnogi gwasanaeth cynaliadwy a lliniaru pwysau cost tymor hwy, dylai'r Cyngor ddatblygu dull o gynllunio adnoddau ar gyfer ei raglen cynnal a chadw ffyrdd dros y tymor hwy cyn belled ag y bo'n ymarferol.

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Mae'r archwiliad hwn yn adolygu trefniadau'r Cyngor ar gyfer cynllunio a chyflawni ei raglen cynnal a chadw ffyrdd

## Cwestiynau'r archwiliad a'r meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Gofynnwyd tri chwestiwn i gefnogi ein cwestiwn archwilio cyffredinol, sef:

A oes gan y Cyngor drefniadau i gynllunio ei Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd yn strategol sy'n cael eu llywio gan ddealltwriaeth dda o dueddiadau cyfredol a thueddiadau'r dyfodol?

A oes gan y Cyngor drefniadau i reoli perfformiad a risg ei Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd?

A oes gan y Cyngor drefniadau i gynllunio a rheoli adnoddau ei Raglen Cynnal a Chadw Ffyrdd?

### Meini prawf

Er mwyn ateb ein cwestiynau archwilio, gwnaethom edrych ar ddealltwriaeth y Cyngor o dueddiadau presennol a rhai'r dyfodol mewn cynnal a chadw ffyrdd, sut mae'r gwasanaeth yn cysylltu â chynlluniau strategol allweddol eraill, sut mae'r Cyngor yn nodi risgiau ac yn mesur gweithgarwch, a sut mae'r gwasanaeth yn nodi a yw'n darparu gwerth am arian i drigolion.

## Dulliau

Gwnaethom adolygu dogfennau sydd ar gael ar wefan y Cyngor ac a ddarparwyd i ni gan y Cyngor. Gwnaethom hefyd gyfweld ag amrywiaeth o swyddogion ac Aelodau sy'n ymwneud â'r gwasanaeth.

# 2 Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Rôl yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â rhai cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill o Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir i ddisgrifio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain a nodir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.